OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2945 (Cy. 244)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir Benfro) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi Sir Benfro yn ardal gorfodi sifil ac yn ardal gorfodi arbennig at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Effaith ymarferol y Gorchymyn yw galluogi Cyngor Sir Penfro i orfodi'r gyfraith am dramgwyddau parcio yn Sir Benfro drwy gyfundrefn cyfraith sifil, yn hytrach na gorfodi'r gyfraith gan yr heddlu neu wardeiniaid traffig yng nghyd-destun y gyfraith droseddol.

2010 Rhif 2945 (Cy. 244)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir Benfro) 2010

Gwnaed *8 Rhagfyr 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *14 Rhagfyr 2010*

Yn dod i rym *1 Chwefror 2011*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8(1) o Atodlen 8 a pharagraff 3(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

Mae Cyngor Sir Penfro wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru ar iddynt wneud gorchymyn o dan y pwerau hyn mewn perthynas â'r cyfan o'i ardal.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu Dyfed Powys yn unol â gofynion paragraffau 8(3) o Atodlen 8 a 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir Benfro) 2010 a daw i rym ar 1 Chwefror 2011.

(**1**) 2004 p. 18.

(**2**) Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, yn unol â hwy Gweinidogion Cymru yw'r 'awdurdod cenedlaethol priodol' o ran Cymru o dan adran 92(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Dynodi ardal gorfodi sifil ac ardal gorfodi arbennig

2.—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi'r ardal a ddisgrifir ym mharagraff (2) yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio; a

(b) ardal gorfodi arbennig.

(2) Yr ardal a ddynodir yw Sir Benfro.

Ieuan Wyn Jones

Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

8 Rhagfyr 2010